



CAPEL SALEM, DOLGELLAU

TAFLEN MIS HYDREF 2021

Rhifyn 231

Annwyl gyfeillion,

Fel y gwyddoch, rydym wedi bod yn eglwys ddi-fugail ers 2012 pan ymddeolodd y Parchedig Megan Williams. Er ein bod, fel swyddogion, wedi gwneud ein gorau glas i gynnal yr achos yn Salem nid yw wedi bod yn rhwydd bob amser. Rydym wedi bod yn ffodus iawn fod y Parchedig Megan Williams wedi bod yn fodlon dychwelyd o Sir Fôn i weinyddu yn angladdau'r ffyddloniaid ac mewn ambell fedydd, ond ni allwn gymryd y trefniant hynny yn ganiataol. Rydym wedi ymdrechu i ddod i ddealltwriaeth â gweinidogion eraill o dro i dro ond yn anffodus, ofer fu'r ymdrechion hynny. Mae ein perthynas gydag ein cyfeillion yn y Tabernacl wedi bod yn dda ac mae hynny wedi bod o fudd i'r ddwy eglwys. Fel yn achos y rhan fwyaf o eglwysi, gostwng mae ein haelodaeth - mae 2021 wedi bod yn un arbennig o drom, gyda phump o'n haelodau yn huno yn ystod y flwyddyn. Daeth un llygedyn o oleuni pan ymunodd y Parchedig Patrick Slattery â ni fel aelod. Y mae Patrick wedi bod yn barod iawn ei gymwynasau i ni ers blyneddod, bob amser yn fodlon llenwi bwloch ar fyr rybudd. Y mae hefyd wedi bod yn cyfrannu yn rheolaidd i'n cylchlythyr misol. Erbyn hyn y mae wedi ei dderbyn yn swyddogol fel gweinidog yn rhengoedd Eglwys Bresbyteriaid Cymru. Yn sgil hynny y mae wedi mynegi'r awydd i'n cynorthwyo mewn modd mwy ffurfiol trwy ein gwasanaethu fel gweinidog gwirfoddol, di-dâl. Dyma sydd yn cael ei ddatgan ar wefan EBC ynglŷn â'r weinidogaeth wirfoddol: *"Ers 2009, gall gweinidogion ddewis gwasanaethu'r Eglwys yn wirfoddol. O dan reolaeth yr Henaduriaeth, gall gweinidogion sydd wedi ymddeolddod i ddealltwriaeth gydag eglwys neu ofalaeth. Bydd y gweinidog gwirfoddol yn cyflawni rhai o ddyletswyddau gweinidog llawn amser."* Y mae trefniant o'r fath yn dibynnu ar ewyllys da o'r ddwy ochr. Dywed y canllawiau *"Ni cheir yr hyn a elwir yn 'mutuality of obligation'. Ystyr hyn yw na fydd y Cyfundeb yn gwarantu gwaith gwirfoddol ac ni fydd ychwaith unrhyw rwymedigaeth ar Weinidog i gyflawni gwaith gwirfoddol h.y. gall Gweinidog wrthod cyflawni dyletswyddau heb wynebu unrhyw ganlyniadau.*

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r eglwys mewn trefniant o'r fath. Y mae Patrick wedi amlinellu'r hyn y gall ei gynnig i ni fel eglwys e.e. cynnal oedfaon, gweinyddu mewn gwasanaethau arbennig, cyfrannu i'r cylchlythyr, cynorthwyo gyda'r gwaith bugeiliol, arwain dosbarthiadau Beiblaidd, Seiat ayyb. Y mae'r swyddogion yn unfrydol eu barn y dylid derbyn ei gynnig caredig ac i'r perwyl hynny rydym wedi cysylltu ag ysgrifennydd yr Henaduriaeth i ofyn iddi roi'r mater ar agenda cyfarfod nesaf o Bwyllgor Gwaith yr Henaduriaeth a gynhelir yn gynnar ym mis



Tachwedd. Tybir y bydd yr Henaduriaeth yn barod iawn, yn wir yn awyddus iawn, i roi sêl eu bendith i'r trefniant. Dydd Sul, Hydref 10fed y Parchedig Eric Greene fydd yn ein harwain mewn oedfa gymun. Nid yw'r amgylchiadau yn caniatáu i ni gynnal oedfa Ddiolchgarwch yn y dull arferol ond rydym am ymdrechu i ddilyn yr arferiad o ddod â **bwyydydd addas** ar gyfer y Banc Bwyd lleol yn y Bermo ar y Sul hwnnw. Deallaf hefyd fod Mrs Joan Pugh a Mrs Menna Lloyd Jones yn trefnu ymgyrch i gasglu **deunyddiau ymolchi a hylendid personol** ar gyfer ffoaduriaid o Afghanistan. Hoffem gefnogi eu hymgyrch hwythau ac felly gofynnir yn garedig i chi gyfrannu cyfuniad o eitemau addas. Ceir gwybodaeth am eitemau addas ar safle'r Trussell Trust - www.trusselltrust.org.

Ar nodyn hynod drist, cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â Mrs Eirian Davenport a'r teulu a brofodd brofedigaeth lem rhai wythnosau yn ôl gyda marwolaeth ddisymwth Mr Hywel Bromley Davenport. Roedd y teulu a'r gymdeithas gyfan wedi mawr obeithio fod y gwaethaf heibio a bod Bromley yn gwella'n raddol ond yn anffodus nid felly y bu. Gwn fod y teulu yn werthfawrogol iawn o'r cyfnod a gawsant gyda Bromley wedi iddo ddychwelyd o'r ysbyty. Roedd Bromley yn w'r tawel a diymhongar ond yn dipyn o dynnw'r coes yn ôl y sôn. Roedd yn adeiladydd uchel iawn ei barch a phawb yn canmol ei waith. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn byd natur ac roedd wrth ei fodd yn dilyn diddordebau cefn gwlad megis saethu a physgota - cai bleser mawr o ddilyn y diddordebau hynny yng nghwmni ei ffrindiau. Bydd colled fawr ar ei ôl.

Dymunwn y gorau a gwellhad buan i Mrs Dorothy Hughes ac i Mr Gareth Jones, cymar Ms Wendy Roberts, y ddau ohonynt yn gwella'n dda yn sgil derbyn llawdriniaeth. Llongyfarchiadau calonnog i Mona ac Elis ar ddathlu eu priodas ddiemwnt yn ystod y dyddiau diwethaf.

Yn gywir,

Dweryd Williams (ar ran y swyddogion)

OEDFAON MIS HYDREF

Dydd Sul, Hydref 3ydd - 10.00 y bore - Oedfa Zoom dan ofal y Parchedig Edwin Hughes, Llanbrynmair

Dydd Sul, Hydref 10fed - 10.00 y bore - Oedfa Gymun Diolchgarwch dan ofal y Parchedig Eric Greene, Y Bala

Dydd Sul, Hydref 17eg -10.00 y bore - Oedfa dan ofal Y Bnr Edward Morus Jones, Llangristiolus

Dydd Sul, Hydref 24ain - 10.00 y bore - Oedfa dan ofal y Parchedig Trefor Lewis, Deganwy

Dydd Sul, Hydref 31ain -10.00 y bore - Oedfa dan ofal y Parchedig R.O.Roberts, Morfa Nefyn

NICODEMUS gan y Parchedig Patrick Slattery

Yn ei lyfr 'Dechrau'r Daith', mae'r Dr. Tegla Davies yn son am wahanol raddau mewn bywyd. **"Y mae llawer o debygrwydd,"** meddai, **"rhwng bywyd rhosyn a bywyd aderyn, ond y gwahaniaeth rhyngddynt sy'n bwysig. Ni all rhosyn dyfu'n aderyn, chwaith. Er mwyn ei droi'n aderyn buasai'n rhaid cael Duw i'w ail greu."** Gwelir gwahaniaeth tebyg rhwng bywyd anifail a bywyd dyn. Ond y mae gradd uwch o fywyd i'w gael na bywyd dyn. **"Awgryma'r Testament newydd,"** meddai Tegla, **"fod cymaint o wahaniaeth rhwng bywyd Cristion ag y sydd rhwng bywyd dyn a bywyd anifail, neu fywyd anifail a fywyd llysieuyn, ac na all dyn, er gwneud ei orau, dyfu'n Gristion gan fod yn rhaid i Dduw ei ail greu, fel petai'n troi rhosyn yn aderyn."** Mae Nicodemus yn cynrychioli crefydd yr Hen Oruchwyliaeth ar ei gorau, ond nid yw hynny'n ddigon i sicrhau iddo fynediad i Deyrnas Dduw. Rhaid ei eni o'r newydd oddi uchod trwy weithgarwch goruwchnaturiol yr Ysbryd Glân.

Pan glywn am Nicodemus yn dod at Iesu liw nos, tueddwn i gymryd yn ganiataol mai aros iddi dywyllu cyn dod yr oedd am na ddymunai i neb ei weld, a bod ganddo gywilydd i eraill wybod ei fod am gymdeithasu â'r Iesu. Wedi'r cwbl, roedd Nicodemus yn ddyn mewn safle arbennig, yn Pharisead ac yn aelod o'r Sanhedrin, ac ni fyddai'n dda i'w ddelwedd yn y gymdeithas iddo gael ei weld gydag un a amheuid gymaint ag Iesu.

Mae'n amlwg fod Nicodemus yn gefnogol iawn i Iesu oherwydd mae Ioan yn cyfeirio ato ym mhennod 7, adnodau 50 i 52, yn amddiffyn Iesu pan oedd o flaen y Sanhedrin, ac ym mhennod 19, adnodau 38 i 42, bu yn cynorthwyo Joseff o Arimathea gyda threfniadau angladd Iesu. Mae Nicodemus yn esiampl dda o berson oedd yn ddidwyll yn ceisio adnabod y gwirionedd. Byddai'n dda petai mwy o rai tebyg iddo heddiw. Pobl sydd yn barod i osod o'r neilltu ragfarn ac ofn, ac i geisio'r gwirionedd gyda chalon onest ac ysbryd gostyngedig. Rhaid bod Iesu wedi codi braw ar Nicodemus trwy ddweud wrtho fod yn rhaid ei eni o'r newydd. Mae'n amlwg nad oedd yn cyfeirio at ailenedigaeth gorfforol nac ychwaith at weithred o hunan ddiwygiad. Mae'n amlwg hefyd nad oedd Iesu'n cyfeirio at fedydd Cristnogol, gan i fedydd gael ei sefydlu ar ôl yr atgyfodiad. Mae'n sicr fod bedydd yn arwydd neu yn sacrament sy'n arwyddo genedigaeth newydd, ond mae'n rhaid bod yn ofalus nad ydym yn cymysgu'r arwydd allanol â'r hyn sy'n digwydd yn fewnol.

Mae bedydd yn ddatganiad cyhoeddus o'r enedigaeth newydd, gwaith sy'n anweledig, gwaith cudd Duw yn y galon sy'n rhoi bywyd newydd inni, a chychwyn newydd. Mae'n amlwg fod Nicodemus yn cael ei gyfrif yn arweinydd gwybodus gan ei bobl ei hun; yn wir, yn athro parchus yn Israel. Roedd yn hyddysg yn hanes



ei genedl ac yn ei chyfreithiau. Ond pan ddaeth Nicodemus at Iesu, cafodd ei arwain ar unwaith at wraidd ei angen ysbrydol. Nid ei statws o fewn ei genedl, nid ei wybodaeth o'r gyfraith a'i gofnyddion, oedd yn bwysig. Yr hyn oedd o wir bwys, meddai'r Iesu wrtho, oedd ei berthynas â Duw. Rhaid i ninnau wynebu'r un gwirionedd. Gwylw'n rhag cymryd yn ganiataol fod popeth yn iawn rhyngom â Duw oherwydd bod ein cefndir yn iawn a bod ein harferion crefyddol yn ddigonol. Mae'r geiriau a glywodd Nicodemus yn siŵr o fod yr un mor wir amdanom ninnau, sef bod yn rhaid i ninnau gael ein geni o'r Ysbryd. Mae'r syniad o'r Cristion yn berson wedi'i aileni yn syniad cyffredin iawn yn y Testament Newydd. Yn wreiddiol wrth gwrs roedd aileni'n golygu dod at Grist oddi wrth grefydd eraill, ac roedd hynny'n arwain at newid agwedd a syniadau'n llwyr, gyda gwahaniaeth sylfaenol yn yr hyn oedd yn llywodraethu bywyd. Nid pobl wedi **DROSODD**

troi at Grist o grefydd arall, neu wedi dod i'r eglwys o'r byd yw mwyafrif Cristnogion Cymru heddiw, ond yn hytrach pobl sydd wedi'u magu mewn capel neu eglwys, ac felly wedi tueddu o'r dechrau at werthoedd a safonau Cristnogaeth, ac wedi cyfarwyddo â dysgeidiaeth yr eglwys am Grist. Mewn sefyllfa fel hyn gall yr aileni fod yn broses hir, ac efallai mai wrthi yn cael ein haileni y byddwn ar hyd ein hoes. Trwy Grist fe geisiwn nerth Duw i fyw yn unol â'i ewyllys Ef, a phrysuero dyfodiad ei deyrnas, gan geisio tyfu mewn gwirionedd yn blant i Dduw a byw'r bywyd tragwyddol. Gellir mynegi hyn i gyd mewn un ymadrodd, sef derbyn arglwyddiaeth Crist ar ein holl fywydau. Roedd Nicodemus yn ŵr crefyddol, moesol, addysgedig, parchus a chwrtais. Roedd hyd yn oed yn credu yn nharddiad dwyfol Iesu, ond roedd y cyfan yn annigonol. Roedd yn rhaid iddo gael ei eni o'r newydd. Sut mae'r enedigaeth hon yn digwydd? O un safbwynt, mae'n waith Duw yn gyfan gwbl. Does neb erioed wedi rhoi genedigaeth iddo'i hunan, felly mae'r enedigaeth yn enedigaeth oddi uchod, yn enedigaeth trwy'r Ysbryd Glan. O'n hochr ni, rhaid edifarhau a chredu. Dyna oedd pregeth gyntaf Iesu Grist. **"Edifarhewch a chredwch yr Efengyl."** Rhaid edifarhau, nid oes ffordd i'w osgoi. Unwn yr eglwysi, defnyddiwn bob dull modern i addoli, pwyllgorwn a chynadleddwn gyda'r dyfalbarhad mwyaf; pregethwn y wir athrawiaeth, oni fydd yr hyn a wnawn yn codi o edifeirwch, nid daw dim â ni i'r lan. Nid yw Duw'n addo cadw yn fyw unrhyw sefydliad crefyddol onid yw mewn gwirionedd yn sianel i'w drugaredd at wrthrychau ei dosturi - i ddwyn iddynt y gwir fywyd o'i adnabod ef. Mae adferiad yr eglwys yn gorffwys yn yr un lle â'n hachubiaeth bersonol. Mae pob diwygiad a pob deffroad ysbrydol ers y Pentecost wedi dechrau gyda grwpiau bach o bobl yn dod at ei gilydd yn wylaidd ac yn weddigar. Heddiw mae'r Ysbryd yn symud yng Nghymru mewn ffordd newydd ac mae grwpiau bach o bobl yn cyfarfod i weddio mewn capeli, cartrefi, canolfannau, ar y we, ar y teliffon, yn yr awyr agored. Er gwaethaf y pandemig Covid maent yn derbyn bendith ac yn cael eu harwain i weithredu yn eu milltir sgwâr i helpu'r di-waith, yr hen, yr unig, y cleifion, yr anabl ac eraill. Mae rhai o'r eglwysi hyn yn denu mwy o bobl i addoli, i weddio ac i astudio'r Beibl. Mae potensial i bob eglwys weld cynnydd ac adferiad. Gwelwn fod stori Nicodemus yn berthnasol i bob un ohonom wrth inni geisio sicrhau bod yr Eglwys yn berthnasol yn ein hoes ni. Rhaid i ni fod yn barod i newid, i beidio bod yn orddibynnol ar ddefodau a thraddodiadau'r gorffennol, ond yn hytrach i deimlo'n rhydd i gael ein harwain gan yr Ysbryd i diroedd newydd a dulliau newydd o addoli a gwasanaethau Duw a chymdeithas. **Darllenwch hanes Nicodemus yn Ioan pennod 3, adnodau 1 i 16. Defnyddiwch emyn 841 gan W. Rhys Nicholas fel gweddi.**

AWYDD GWYLIU BACH MEWN LLEOLIAD GWAHANOL?

Mae Coleg Trefeca yn falch o gynnig Gwyliu Teuluol dros Wyliau Ysgolion Hanner Tymor yr Hydref (25/10 hyd 31/10/2021). Estynnir gwahoddiad i rieni a'u plant i fwynhau Trefeca, Bannau Brycheiniog a'r holl weithgareddau addas i deuluoedd sydd gerllaw.

Gellir hefyd treulio'r amser yn mwynhau gerddi hyfryd Trefeca yn yr awyr iach a chwarae gemau pêl, badminton a chroce!

Cynigir 'Llety Ystafell yn Unig' ar gyfer hyd at 2 oedolyn a 2 blentyn am £40 y noson. Pe byddech am ddefnydd o'r llety ar eich cyfer chi a'ch teulu'n unig yn ystod Gwyliu Ysgol Hanner Tymor yr Hydref 2021, mae'r gost yn dechrau o £140 y noson. Cei'r mynediad i'r llety o 3.00 o gloch prynhawn Llun 25 Hydref hyd at 10.00 bore Gwener 31 Hydref. Mae'r cynnig arbennig hwn ar gael yn unig ar gyfer Gweinidogion, Gweithwyr, Blaenoriaid ac Aelodau Eglwys Bresbyteriaidd Cymru. Mae pob ystafell wely ag ystafell ymolchi a bydd gennych ddefnydd o gegin fechan yn y bloc llety sy'n cynnig cyfleusterau gwneud te/coffi, popty micro-don, peiriant tostio ac offer barbeciw. Cynigir Wi-Fi am ddim yn y bloc llety. Bydd y Capel Bach yn agored argyfer gweddi bersonol.

Caniateir o ddydd Mercher 29 Hydref mynediad i'r lolfa, yr ystafell deledu a'r Amgueddfa /Arddangosfa. Os am archebu llety, anfonwch e-bost at Mair a Richard, coleg.trefeca@ebpcw.cymru neu ffoniwch 01874 711 423.

